Minutes of Meeting of the Community & Social Development Committee held on 17th June 2026. At The Ostreme Centre 6.30pm and via TEAMS

Councillors Present: Cllrs Laura Gilbert (Chair) Ian Scott (Vice Chair), and Will Thomas.

Officers Present: Sarah Thyer – Volunteer Co-Ordinator Officer and Ian Hughes – CSO

CSD2606-01	**Apologies:** Cllr Sara Keeton
CSD2606-02	**Declarations of Interest** None
CSD2606-03	**To approve the minutes of the previous meeting as a true record.** To approve the minutes of the meeting held on 18th March 2026 as a true record. **RESOLVED** To approve the minutes of the meeting held on 18th March 2026 as a true record
CSD2606-04	**Outstanding Actions from Previous Meetings** The CSO outlined outstanding actions. **RESOLVED** 'Outstanding action' report to be updated by CSO.
CSD2606-05	**Budget Monitoring Reports to 31/01/2025** **RESOLVED** to defer agenda item until either July or September 2026.
CSD2606-06	**Elect Vice Chair for Committee** Cllr Scott was proposed for the role by Cllr Thomas and seconded by Cllr Gilbert **RESOLVED: Cllr Scott appointed as Vice-Chair of The Committee**

CSD2606-07	**Representative for Facilities and Property Committee** Cllr Gilbert was proposed for the role by Cllr Scott and seconded by Cllr Thomas **RESOLVED:** Cllr Gilbert appointed as the committee's representative to the **Facilities and Property Committee.**
CSD2606-08	**Welcome Wall** Cllr Scott set out that a number of 'Welcome' stones most notably on Mumbles Road on the approach to Mumbles required restoration. Other stones exist at Bracelet Bay and The Mayals Road. The stones in question have not been maintained for many years and quite possibly since their installation. The stones require professional cleaning to avoid any potential damage to the stones. The Committee believed that the initial focus should be on the Welcome Stone on Mumbles Road **ACTION:** CO to liaise with SCC and ascertain who has responsibility for the cleaning of the Welcome Stone located on Mumbles Road. **ACTION:** CO to obtain a quote on behalf of MCC to clean the Welcome Stone professionally.
CSD2606-09	**Flip the Streets Initiative Update** Cllr Scott outlined the success of an open session with users at Mumbles Skatepark on 8th April 2026. Prof. Nouri of Swansea University was in attendance together with representatives from Fresh Creative. In addition to Cllr Scott other representatives from MCC were in attendance. including Officers. A mural has since been created at the Skatepark which has received positive feedback **RESOLVED:** To formally thank Prof Nouri and MCC Officers for their contribution/participation.

CSD2606-10	**Mumbles Hill 'Bunker'** Cllr Gilbert set out the condition of a WW2 bunker on Mumbles Hill. The bunker is overgown and it was noted by the Committee that a safety handrail would be desirable in the event of the wild shrubbery being cleared. In addition, information boards had 'blown' preventing the information being legible. **ACTION** CSO to liaise with SCC and John Powell (local historian) and ascertain who has responsibility for managing the site in question.
CSD2606-11	**Vandalism (graffiti) at Mumbles Skate Park** Cllr Ian Scott informed the committee that there had not been any further reported cases of vandalism at Mumbles Skatepark. **RESOLVED** MCC to continue to be mindful of acts of vandalism at the skatepark and maintain an overview.
CSD2606-12	**CCTV at Mumbles Skate Park Update** Cllr Thomas set out that the CO was in the process of obtaining quotes in relation to CCTV and street lighting. **ACTION** CO to link obtaining quotes for CCTV with street lighting at Mumbles Skatepark.
CSD2606-13	**Mumbles Skate Park - Hedging (adjacent with Mumbles Road)** Cllr Thomas outlined that the CO was in the process of procuring quotes in relation to pruning back the hedgerow in question, but that MCC were mindful of protecting nesting birds during the summer period in line with Welsh Government Guidance.

CSD2606-14	**Bench Seating near Greggs** Cllr Gilbert informed the Committee that she had been approached by members of the public requesting additional seating near Greggs at the lower end of Newton Road. The Committee believed that additional seating would be beneficial and that quotes for benches should be obtained prior to a budget proposal form being submitted for the following financial year. **ACTION:** CSO to obtain quotes for six and four metre benches from Second Life Product Wales

Meeting finished 6.53pm

Next Meeting 15th July 2026

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2026 am 6.30pm yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Microsoft Teams

Cynghorwyr yn bresennol: Y cynghorwyr Laura Gilbert (Cadeirydd), Ian Scott (Is-gadeirydd), a Will Thomas.

Swyddogion yn bresennol: Sarah Thyer – Swyddog Cydlynu Gwirfoddolwyr, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

CSD2606-01	**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Sara Keeton
CSD2606-02	**Datganiadau o fuddiant** Dim
CSD2606-03	**Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2026 fel cofnod cywir. **PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2026 fel cofnod cywir.
CSD2606-04	**Camau gweithredu heb eu cwblhau o gyfarfodydd blaenorol** Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau. **PENDERFYNWYD:** Bod y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn diweddaru'r adroddiad ar y 'camau gweithredu heb eu cwblhau'.
CSD2606-05	**Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 31 Ionawr 2025** **PENDERFYNWYD:** Gohirio'r eitem ar yr agenda tan naill ai fis Gorffennaf neu fis Medi 2026.

CSD2606-06	**Ethol is-gadeirydd y pwyllgor** Cynigiwyd ethol y Cynghorydd Scott yn is-gadeirydd y pwyllgor gan y Cynghorydd Thomas; eiliwyd gan y Cynghorydd Gilbert. **PENDERFYNWYD: Penodi'r Cynghorydd** Scott **yn is-gadeirydd y pwyllgor.**
CSD2606-07	**Cynrychiolydd ar gyfer y Pwyllgor Cyfleusterau ac Eiddo** Cynigiwyd ethol y Cynghorydd Gilbert ar gyfer y rôl gan y Cynghorydd Scott; eiliwyd gan y Cynghorydd Thomas. **PENDERFYNWYD:** Penodi'r Cynghorydd Gilbert yn gynrychiolydd y pwyllgor ar gyfer y **Pwyllgor Cyfleusterau ac Eiddo.**
CSD2606-08	**Y Wal Groeso** Nododd y Cynghorydd Scott fod angen adfer nifer o gerrig 'Croeso', yn enwedig ar Heol y Mwmbwls, wrth ddynesu at y Mwmbwls. Roedd cerrig eraill i'w cael ym Mae Bracelet a Heol Mayals. Ni wnaed unrhyw waith cynnal a chadw i'r cerrig dan sylw ers blynyddoedd lawer, ac yr oedd yn dra phosib na wnaed unrhyw waith cynnal a chadw arnynt ers eu gosod. Byddai angen glanhau'r cerrig yn broffesiynol er mwyn osgoi unrhyw ddifrod posibl iddynt. Roedd y pwyllgor o'r farn y dylid canolbwyntio yn gyntaf ar y garreg groeso ar Heol y Mwmbwls. **CAM GWEITHREDU:** Y Prif Swyddog i gysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe i ganfod pwy fyddai'n gyfrifol am lanhau'r garreg groeso ar Heol y Mwmbwls. **CAM GWEITHREDU:** Y Prif Swyddog i gael dyfynbris ar ran Cyngor Cymuned y Mwmbwls i lanhau'r garreg groeso yn broffesiynol.
CSD2606-09	**Menter 'Flip the Streets'** Dywedodd y Cynghorydd Scott fod y sesiwn agored gyda'r sawl a oedd yn defnyddio Parc Sglefrio'r Mwmbwls ar 8 Ebrill 2026 yn llwyddiant. Roedd yr Athro Nouri o Brifysgol Abertawe yn bresennol, ynghyd â chynrychiolwyr o Fresh Creative. Yn ogystal â'r Cynghorydd Scott, roedd cynrychiolwyr eraill o Gyngor Cymuned y Mwmbwls yn bresennol, gan gynnwys swyddogion.

	Ers hynny, roedd murlun wedi ei greu yn y parc sglefrio, a oedd wedi cael adborth cadarnhaol. **PENDERFYNWYD:** Diolch yn ffurfiol i'r Athro Nouri a swyddogion Cyngor Cymuned y Mwmbwls am eu cyfraniad / cyfranogiad.
CSD2606-10	**'Byncer' Bryn y Mwmbwls** Rhannodd y Cynghorydd Gilbert wybodaeth am gyflwr byncer o'r Ail Ryfel Byd ar Fryn y Mwmbwls. Roedd y byncer wedi ei orchuddio gan blanhigion, a nodwyd gan y pwyllgor y byddai canllaw diogelwch yn ddymunol pe bai'r llwyni gwyllt yn cael eu clirio. Yn ogystal, roedd y byrddau gwybodaeth wedi pylu gan olygu nad oedd modd darllen yr wybodaeth arnynt mwyach. **CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i gysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe, a John Powell (hanesydd lleol), i gadarnhau pwy fyddai'n gyfrifol am reoli'r safle dan sylw.
CSD2606-11	**Fandaliaeth (graffiti) ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls** Hysbysodd y Cynghorydd Ian Scott y pwyllgor na chafwyd unrhyw adroddiadau am achosion pellach o fandaliaeth ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls. **PENDERFYNWYD:** Bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls i barhau i fod yn ymwybodol o fandaliaeth yn y parc sglefrio, a chadw llygad ar y sefyllfa.
CSD2606-12	**Teledu cylch cyfyng ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls** Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod y Prif Swyddog yn y broses o gael dyfynbrisiau mewn perthynas â chael technoleg teledu cylch cyfyng a goleuadau stryd ar gyfer y parc sglefrio. **Cam Gweithredu:** Y Prif Swyddog i geisio dyfynbrisiau ar gyfer technoleg teledu cylch cyfyng a goleuadau stryd ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls.

CSD2606-13	**Parc Sglefrio'r Mwmbwls – gwrychoedd (wrth ymyl Heol y Mwmbwls)** Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod y Prif Swyddog yn y broses o gaffael dyfynbrisiau mewn perthynas â thocio'r gwrych dan sylw, ond bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn ymwybodol o warchod adar a fyddai'n nythu yn ystod cyfnod yr haf, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
CSD2606-14	**Meinciau eistedd ger Greggs** Hysbysodd y Cynghorydd Gilbert y pwyllgor fod aelodau o'r cyhoedd wedi cysylltu â hi yn gofyn am seddi ychwanegol ger Greggs ym mhen isaf Heol Newton. Roedd y pwyllgor o'r farn y byddai seddi ychwanegol yn fuddiol, ac y dylid cael dyfynbrisiau ar gyfer meinciau cyn cyflwyno ffurflen gynnig cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. **CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i geisio dyfynbrisiau ar gyfer meinciau 6 metr a 4 metr o hyd gan Second Life Product Wales.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.53pm

Cyfarfod nesaf: 15 Gorffennaf 2026